

CALON TÂN

RHIFYN
YR HYDREF
2026

PECYNNAU RHEOLI GWAEDU CRITIGOL

TUDALEN 7



HER DRINGO
GRISIAU 9/11
TUDALEN 3

PENCAMPWRIAETH
BEICIO CYMRU
TUDALEN 6



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

ANOGIR TIRFEDDIANWYR I #LOSGIIAMDDIFFYN

TUDALEN 4


DIGWYDDIADAU CYFFROUS
Y DYFODOL
TUDALEN 13

CYNNWYS

■ DRINGO GRISIAU 9/11	3
■ #LOSGIIAMDDIFFYN	4
■ PENCAMPWRIAETH BEICIO CYMRU	6
■ PECYNNAU GWAEDU	7
■ CYFATHREBU'R RHANBARTHAU	8
■ CHWARAEON A CHYMDEITHASOL	11
■ PRIF SWYDDOG TÂN	12
■ DIGWYDDIADAU	13
■ SWYDDI	14

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Dyma beth a'n cadwodd yn brys y mis Awst:



DIFFODDWYR TÂN YN CWBLHAU HER DRINGO GRISIAU 9/11!

Ddydd Sadwrn, 5 Medi, mae naw diffoddwr tân o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi llwyddo i gwblhau sialens dringo grisiau heriol dros 110 llawr yn Atlanta, UDA, er cof am y 343 o ddiffoddwyr tân a gollodd eu bywydau yn ystod yr ymosodiadau terfysgol ar 11 Medi, 2001.

Gan gymryd rhan yn yr Her Dringo Grisau Er Cof am 9/11, a hynny 25 mlynedd ers yr ymosodiadau, dringodd y tîm yr hyn sy'n cyfateb i 110 o lorïau tyrau Canolfan Masnach y Byd i anrhydeddu dewrder, aberth ac ymroddiad y diffoddwyr tân a roddodd eu bywydau wrth ymateb i ddigwyddiadau 9/11. Yn cynrychioli CTACGC roedd y Rheolwyr Gorsaf



Carl Williams ac Oliver Tziros, y Rheolwyr Criw Antony Pugh a Steven Ratcliff, a'r Diffoddwyr Tân Rebecca Barden, Rhys Fitzgerald, Lisa Reynolds, Cristian James a Trystan Griffiths.

Ar ôl hyfforddi am sawl mis i baratoi, cwblhaodd y tîm y ddringfa heriol ochr yn ochr â diffoddwyr tân a phersonél y gwasanaethau brys o bob cwr o'r byd.

Mae'r tîm yn gobeithio bod eu hymdrechion nid yn unig wedi anrhydeddu'r cof am y diffoddwyr tân a gollwyd, ond hefyd wedi cydnabod yr ymrwymiad parhaus, y gwydnwch a'r aberth a ddangosir gan bersonél y gwasanaethau brys bob dydd.

Llongyfarchiadau i'r tîm ar y
cyflawniad anhygoel hwn.

DARLLEN MWY





Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru Wales Wildfire Board

Llosgi i Amddiffyn Burn to Protect

YN DILYN HAF NA FYDD CYMRU'N EI ANGHOFIO, ANOGIR TIRFEDDIANWYR I #LLOSGIAMDDIFFYN

Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn galw ar ffermwyr, tirfeddianwyr a chymunedau gwledig ledled Cymru i chwarae eu rhan wrth leihau'r risg o danau gwyllt yn y dyfodol, wrth iddo lansio ei ymgyrch #LlosgiAmddiffyn flynyddol.

Daw'r lansiad yn dilyn un o'r tymhorau tanau gwyllt mwyaf y mae Cymru wedi'i weld. Haf 2026 oedd yr haf poethaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru, ac roedd yn cynnwys y mis Gorffennaf sychaf a gofnodwyd erioed, gan greu amodau delfrydol i danau gwyllt ledaenu'n gyflym ar draws cefn gwlad. Yn ystod mis Gorffennaf ac Awst, cyhoeddodd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru bedwar o danau gwyllt mawr ar Fynydd Conwy a Mynydd Llanwynno, ac yng Nghronfa Ddŵr Llangynidr a Rhandir-mwyn.

Gan gydnabod bod llosgi dan reolaeth yn parhau i fod yn ffordd bwysig o reoli tir pan gaiff ei wneud yn gyfrifol, mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn annog pawb sy'n bwriadu llosgi y tymor hwn i gydweithio'n agos â'u Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, undebau ffermio a phartneriaid eraill.

Gall ffermwyr a thirfeddianwyr losgi grug, glaswellt, rhedyn ac eithin rhwng 1 Hydref a 15 Mawrth bob blwyddyn, gyda'r cyfnod wedi ei ymestyn tan 31 Mawrth yn yr ucheldiroedd. Fodd bynnag, dylai unrhyw un sy'n bwriadu llosgi dan reolaeth sicrhau bod cynllun llosgi ar waith a bod yr holl ragofalon priodol wedi'u hystyried.



Fel rhan o'r ymgyrch #LlosgiAmddiffyn, mae Bwrdd Tanau Gwylt Cymru yn atgoffa tirfeddianwyr o gyngor diogelwch syml ond pwysig:

- Rhowch wybod i'ch Gwasanaeth Tân ac Achub lleol cyn cynnal llosgiad dan reolaeth.
- Sicrhewch fod gennych ddigon o bobl ac offer ar gael i reoli'r tân.
- Gwiriwch amodau'r tywydd a chyfeiriad y gwynt cyn cynnal unrhyw dân.
- Ystyriwch eiddo, ffyrdd, da byw, cynefinoedd a bywyd gwylt cyfagos.
- Os bydd tân yn mynd y tu hwnt i reolaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar unwaith a rhowch wybodaeth fanwl a chywir am y lleoliad.
- Peidiwch byth â gadael tân heb i rywun fod yn ei wyllo.
- Sicrhewch fod unrhyw dân wedi'i ddiffodd yn llwyr cyn i chi adael y safle, ac ewch yn ôl i'r ardal i wneud yn siŵr nad oes arwyddion ei fod wedi ailgynnal.

**DARLLENWCH BETH MAE ANDY
WRIGHT, CADEIRYDD BWRDD
TANAU GWYLLT CYMRU AC
UWCH GYNGHORYDD ARBENIGOL
- IECHYD PLANHIGION A
THROSLWYDDO GWYBODAETH
CYFOETH NATURIOL CYMRU, YN
EI DDWEUD YMA!**



DIOLCH

Roedd y galw digynsail ar Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi rhoi pwysau sylweddol ar adnoddau, gyda Diffoddwyr Tân, Gweithredwyr yr Ystafell Rheoli a staff cefnogol yn gweithio'n ddiflino i amddiffyn cymunedau, eiddo a'r amgylchedd.

Ni ellir cyflawni gweithrediadau o'r raddfa hon ar ein pen ein hunain, ac mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynegi ei ddiolch diffuant am y gefnogaeth, yr amynedd a'r cydweithrediad a ddangoswyd gan gymunedau, asiantaethau partner a rhanddeiliaid lleol yn ystod y cyfnod hwn.

DIFFODDWR TÂN YN HAWLIO TEITL PENCAMPWRIAETH BEICIO CYMRU

Mae Diffoddwr Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael ei goroni'n Bencampwr Agored Hŷn ym Mhencampwriaeth Treialon Amser Cymru 2026.

Sicrhodd Siôn Jones, Diffoddwr Tân Ar Alwad yng Ngorsaf Dân y Tymbl, y teitl wrth gynrychioli [Tîm](#)

[Hyfforddi Ride Revolution](#), gan gwblhau'r cwrs 10 milltir mewn amser trawiadol o 20 munud a 12 eiliad.

Mae beicio wedi bod yn rhan o fywyd Siôn, sy'n ugain oed, ers ei blentyndod. Cymerodd ran yn ei gystadlaethau cyntaf pan oedd ond yn bedair oed, a dyna oedd dechrau angerdd gydol oes am y gamp.

Dechreuodd Siôn wasanaethu ei gymuned leol fel Diffoddwr Tân ar Alwad ym mis Hydref 2025, rôl sydd wedi ei alluogi i ddatblygu sgiliau gwerthfawr a chael profiadau newydd, wrth barhau i fwynhau ei ymrwymïadau chwaraeon.

DARLLEN MWY



GOSOD PECYNNAU RHEOLI GWAEDU CRITIGOL MEWN GORSOFOEDD TÂN

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn falch o gyhoeddi bod 33 o Becynnau Rheoli Gwaedu Critigol wedi'u gosod mewn cypyrdau Diffibrilwyr Mynediad Cyhoeddus yng Ngorsafedd Tân ar draws ardal ein Gwasanaeth, mewn partneriaeth â [Heartbeat UK](#) a [The Daniel Baird Foundation](#).

Mae cyflwyno'r pecynnau hyn yn nodi cam pwysig arall wrth gryfhau gallu'r Gwasanaeth i achub bywydau a gwella mynediad at offer brys o fewn cymunedau.

Drwy ddarparu mynediad uniongyrchol at offer arbenigol ar gyfer rheoli gwaedu, gall y pecynnau helpu i ddarparu cymorth cyn i'r gwasanaethau brys gyrraedd.

DARGANFOD MWY



GORSAF DÂN RHYDAMAN YN TYFU LLE AR GYFER LLES

Mae Gorsaf Dân Rhydaman wedi trawsnewid ardal y tu allan i'w gorsaf yn ardd les ffyniannus gan greu gofod croesawgar lle gall criwiau ymlacio, cysylltu â natur a mwynhau manteision tyfu eu ffrwythau, eu llysiau a'u blodau eu hunain.

Gwnaed y prosiect yn bosibl trwy gefnogaeth cynllun [Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a ariennir gan Lywodraeth Cymru](#) ac mae wedi cynorthwyo'r orsaf

i ddatblygu gwelyau uwch ar gyfer plannu, cyflwyno amrywiaeth o flodau, perlysiâu, ffrwythau a llysiau, a chreu ardal eistedd awyr agored ddeniadol i gydweithwyr ei mwynhau.

Mae'r hyn a oedd unwaith yn ofod tu allan nad oedd yn cael ei ddefnyddio wedi cael ei drawsnewid yn amgylchedd bywiog a chynhyrchiol sy'n cefnogi lles corfforol a meddyliol. Mae'r ardd yn rhoi cyfle i griwiau dreulio amser yn yr awyr agored, cymryd seibiant o ofynion y rôl a mwynhau'r manteision niferus sy'n gysylltiedig â garddio a chysylltu â natur.

DARLLEN MWY



Y GOGLEDD



Y TAD A'R MAB: TRI THEULU O DDIFFODDWYR TÂN YN GWASANAETHU GYDA'I GILYDD YNG NGORSAF DÂN LLANDRINDOD

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dathlu gwaddol deuluol ryfeddol yng Ngorsaf Dân Llandrindod, lle mae tri thad yn gwasanaethu ochr yn ochr â'u meibion fel Diffoddwyr Tân Ar Alwad.

Gyda'i gilydd, mae Paul a Connor Treacy, Mark 'Dom' a Fin Hughes, a Richard a Brad Phillips wedi ymroi mwy na 73 mlynedd o wasanaeth i ddiogelu eu cymunedau, gan ddangos y traddodiadau teuluol cryf a'r ysbryd cymunedol sy'n parhau i ffynnu o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae'r ymrwymiad maent yn ei rannu i wasanaeth cyhoeddus yn dangos y cysylltiadau teuluol cryf a'r ysbryd cymunedol sy'n parhau i chwarae rhan bwysig yng GTACGC. Ar un achlysur cofiadwy, ymatebodd y chwech i ddigwyddiad gyda'i gilydd ar fwrdd yr un injan dân.

DARLLEN MWY



ARDAL LESIANT YNG NGORSAF DÂN Y CYMER

Yn ddiweddar, cafodd Gorsaf Dân y Cymer sied llesiant awyr agored newydd diolch i Brosiect Seilwaith Gwyrdd ar y cyd â Chyngor Castell-nedd Port Talbot.

Mae cefnogi iechyd meddwl a llesiant yn rhan bwysig o greu amgylchedd gwaith cadarnhaol, ac mae'r ardal lesiant newydd hon yn rhoi lle croesawgar i'r criw yng Ngorsaf Dân y Cymer ymlacio, cysylltu gyda chydweithwyr a chymryd amser i ffwrdd o ofynion eu dyletswyddau gweithredol.

Wedi'i hadeiladu gyda chynaliadwyedd mewn golwg, mae'r sied yn cynnwys wal fyw y gellir ei dyfrhau'n naturiol gan ddefnyddio dŵr glaw a gasglwyd o'r to. Y tu mewn i'r sied mae lle cyfforddus i'r criw ymlacio, ynghyd â soffâ a barbeciw (i'w ddefnyddio y tu allan), y ddau wedi'u rhoi yn garedig i helpu i greu

ardal ddeniadol ar gyfer cysylltu'n gymdeithasol a hybu llesiant.

Dywedodd Stuart Furnell, Rheolwr Gwylfa yng Ngorsaf Dân y Cymer:

"Mae hon yn llawer mwy na sied. Mae'n fan lle gallwn ymlacio, cefnogi ein gilydd a blaenoriaethu ein llesiant. Hoffem ddiolch i Gyngor Castell-nedd Port Talbot a phawb a roddodd o'u hamser a'u hadnoddau i'w gwneud yn bosibl."

Mae'r cyfleuster newydd yn adlewyrchu pwysigrwydd gofalu am iechyd corfforol a meddyliol a bydd yn rhoi man pwrpasol i griwiau Gorsaf Dân y Cymer ddadflino, cysylltu â'i gilydd a mwynhau manteision yr awyr agored!

**Diolch yn fawr iawn i
Gyngor Castell-nedd Port
Talbot am eu cefnogaeth!**



DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:



Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg

Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau. Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpot - s.philpott@mawwfire.gov.uk



PRIF SWYDDOG TÂN CRAIG FLANNERY YNG NGHYNGRES TÂN Y BYD

Yn mis Medi, cynrychiolodd ein Prif Swyddog Tân, Craig Flannery, Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yng Nghyngres Tân y Byd yn Llundain, gan ymuno ag arweinwyr y gwasanaethau tân ac arweinwyr llywodraethol o fwy na 60 o wledydd.

Mae'r digwyddiad dwyflynyddol yn dod â gweithwyr proffesiynol y Gwasanaeth Tân ac Achub o bob cwr o'r byd ynghyd i rannu eu gwybodaeth, i gryfhau partneriaethau ac i drafod rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu gwasanaethau brys heddiw.



DIGWYDDIADAU CYFFROUS Y DYFODOL!



Yn amrywio o ddiwrnodau agored llawn gweithgareddau i olchi ceir a diwrnodau profiad, mae rhywbeth at ddant pawb

Biker Down Cymru

20^{fed} Hydref - Gorsaf Dân Llanelli

25^{ain} Tachwedd - Gorsaf Dân Rhydaman

Profiad Blancedi Trydan Am Ddim

5^{ed} Hydref - Gorsaf Dân Llandrindod

5^{ed} Hydref - Gorsaf Dân Llanfyllin

7^{fed} Hydref - Gorsaf Dân y Drenewydd

7^{fed} Hydref - Gorsaf Dân y Trallwng

7^{fed} Hydref - Gorsaf Dân Aberdaugleddau

12^{fed} Hydref - Gorsaf Dân Llanbedr Pont Steffan

12^{fed} Hydref - Gorsaf Dân Aberteifi

15^{fed} Hydref - Gorsaf Dân Aberhonddu

16^{eg} Hydref - Adeilad y Rhanbarth Sir Benfro

30^{ain} Hydref - Neuadd y Dref Abergwaun

Mae yna groeso cynnes i bawb yn ein digwyddiadau cymunedol, gan gynnig cyfle gwyh i chi gysylltu â'ch diffoddwyr tân lleol a chefnogi'r digwyddiadau a arweinir gan y gorsafoedd.

Nodwch y dyddiadau yn eich calendrau a chadwch olwg ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf a manylion am y digwyddiadau.

Peidiwch â cholli allan ar y cyffro - dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol neu ewch i'n [Tudalen Digwyddiadau](#), a gwahoddwch eich ffrindiau a'ch teulu.

Dilynwch ni ar



GWEITHIO GYDA NI!

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Buddion

- Cyfraddau cyflog cystadleuol - wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.1% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).
- Gwyliau Blynyddol hael – 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg – Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas.
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir.
- Cynllun benthycu offer TG Let's Connect.
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol.
- Elusen Diffoddwyr Tân.
- Parcio am ddim ar y safle.
- Beico i'r Gwaith.
- Cynllun disgownt i staff.
- Iechyd a Lles.
- Benenden Health.



GWELD Y SWYDDI GWAG CYFREDOL



DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?

Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr
tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!





Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

#MwyNaDimOndTanau #MoreThanJustFires



www.tancgc.gov.uk

CYLCHGRAWN CALON TÂN - RHIFYN YR HYDREF 2026